Tric Rhif sy **ddim yn dyddio**

Rhowch gynnig ar y triciau hyn gyda'ch ffrindiau a theulu

Tric Pen-blwydd

Gofynnwch i'ch ffrind wneud y camau canlynol

1. Ysgrifennu mis eu geni fel rhif. E.e. 2 yw mis Chwefror
2. Dyblu'r rhif yma
3. Adio 5
4. Lluosi â 50
5. Adio eu hoedran
6. Tynnu 365

Ar ôl cyrraedd y pwynt yma, gofynnwch i'ch ffrind ddweud y cyfanswm.

Yn eich pen adiwch 115 yn gyfrinachol. Erbyn hyn bydd gennych rif tri neu bedwar digid. Ar gyfer rhif tri digid, y digid cyntaf fydd mis eu geni. Ar gyfer rhif pedwar digid, y ddau ddigid cyntaf fydd mis eu geni. Y ddau ddigid olaf fydd eu hoedran. Er enghraifft: byddai 240 yn golygu eu bod wedi cael eu geni ym mis Chwefror a'u bod yn 40 mlwydd oed.

Tric Rhif sy ddim yn dyddio

Gofynnwch i'ch ffrind wneud y camau canlynol:

1. Ysgrifennu'r flwyddyn y cawson nhw eu geni
2. Ysgrifennu blwyddyn bwysig yn eu bywyd
3. Ysgrifennu faint o flynyddoedd sydd wedi mynd heibio ers y flwyddyn bwysig honno
4. Nodi eu hoedran ar eu pen-blwydd eleni
5. Adio'r rhifau ar eu rhestr
6. Rhannu â 2

Y rhif sydd ar ôl yw'r flwyddyn galendr bresennol

Problem y **Tair Jwg**

Mae dau ffrind sydd â jwg wyth chwart o ddŵr eisiau ei rannu'n gyfartal. Hefyd, mae ganddyn nhw ddwy jwg wag, un yn dal pum chwart a'r llall yn dal tri. Sut gallan nhw fesur 4 chwart yn union o ddŵr yr un?

Ymchwiliwch!!

3 chwart 5 chwart 8 chwart